BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY

Dydd Llun, 11 Ebrill 2016 am 2.00 pm
Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru, Llanelwy

_____

YN BRESENNOL:	Iwan Davies (Cadeirydd)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)
	Bethan Jones	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
	Y Cynghorydd Dilwyn Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)
	Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)
	Siân Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Hefyd yn bresennol:	Mohammed Mehmet	Cyngor Sir Ddinbych (CSDd)
	Cynghorydd Hugh Jones	Cyngor Sir Ddinbych
Swyddogion:	Siân Harland	Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor (CBSC)
	Euros Jones	Rheolwr Partneriaethau (CNC)
	Nicola Kneale	Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol (CSDd)
	Fran Lewis	Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBSC)
	Nigel McCann	Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol (BIPBC)
	Shan Morris	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (GTAGC)
	Hannah Rigby	Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol (CBSC)

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Dim.

2. **CYTUNO AR GYLCH GORCHWYL**

Cytunwyd y byddai'r Cylch Gorchwyl drafft yn cael ei ohirio, tra'n aros am ganlyniad y cynnig i greu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd gyda Sir Ddinbych. Pe cytunwyd i greu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd, byddai Cylch Gorchwyl drafft yn cael ei ystyried fel rhan o raglen y Cyfarfod y Cyd.

PENDERFYNWYD-
Gohirio'r Cylch Gorchwyl drafft.

3. **CYNNIG I GREU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS AR Y CYD GYDA SIR DDINBYCH**

Cytunodd y partneriaid i greu Bwrdd wedi'i uno gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Ddinbych. Roedd papurau'r Bwrdd yn cynnwys y wybodaeth ddemograffig amlinellol a ddrafftiwyd i ddechrau ar y gwaith ar gyfer yr Asesiad Lles. Roedd y rhesymeg dros uno'n seiliedig ar y gydnabyddiaeth fod y ddwy sir yn rhannu anghenion cymunedol tebyg y gellid ymdrin â nhw'n fwyaf effeithiol drwy gydweithio ar draws y ddwy sir. Gallai Bwrdd wedi'i uno fanteisio ar y gwaith da a'r perthnasau a ddatblygwyd trwy hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych, a byddai'n cynnig manteision gweithredol, tactegol a strategol o fewn ac ar draws rhanbarth canolog Gogledd Cymru a byddai felly'n cynorthwyo wrth gyfrannu at gyflawni'r amcanion lles, sef: -

- Cymru lewyrchus
- Cymru wydn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

PENDERFYNWYD-

Uno Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Ddinbych, gan y byddai Bwrdd wedi'i uno'n cynorthwyo i gyfrannu at gyflawni nodau lles.